*Datganiad i'r Cyfryngau*
*23 Ebrill 2025*
*I'w ryddhau ar unwaith*

# Ffilm Archif 'Oed yr Addewid' a Enillodd Wobr BAFTA yn Dychwelyd i Sinemâu

Mae sgan newydd o *Oed Yr Addewid (Do Not Go Gentle*), ffilm Gymraeg o'r flwyddyn 2000 a enillodd wobr BAFTA ac sy'n wleidyddol berthnasol heddiw, yn cael ei ail rhyddhau mewn sinemâu o fis Mawrth 2025.

Gan y Cyfarwyddwr o Gymru, Emlyn Williams, mae Oed yr Addewid wedi'i gosod yn 1997, gyda Phrydain yn cyrraedd trothwy gwleidyddol yn dilyn 18 mlynedd o reolaeth y Llywodraeth Geidwadol. Mae'r ffilm yn serennu rhai o fawrion byd actio Cymru, Stewart Jones, Arwel Gruffydd, Gwenno Elis Hodgkins a Gwyn Vaughan. Mae'n dilyn stori'r weddw William Davies, sosialydd a chwarelwr sydd wedi ymddeol. Mae e'n teimlo'n ddig ac yn chwerw tuag at lywodraeth sydd wedi anghofio amdano yn ei henaint, ac mae'n mynd ati i roi cynllun abswŕd a phenboeth ar waith. Pum mlynedd ar hugain ers ei rhyddhau, mae themâu'r ffilm – gofal cymdeithasol, heneiddio a'r wladwriaeth Brydeinig – yn berthnasol i gynulleidfaoedd hyd heddiw.

***Dyma ymateb yr actor Arwel Gruffydd, sy'n chwarae rhan Alun yn y ffilm, i'r newyddion bod y ffilm yn cael ei hail ryddhau:***

*"Rydw i'n falch iawn bod Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ffilm Cymru wedi cydweithio i greu argraffiad digidol newydd o* Oed yr Addewid*. Braint o'r mwyaf oedd chwarae rhan ganolog yn y ffilm hon 25 mlynedd yn ôl, ac mae gen i atgofion melys iawn o'r cyfnod, yn enwedig o gydweithio mor agos â'r diweddar Stewart Jones, actor gwych, heb ei ail."*

Mae Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ffilm Cymru, fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI, wedi cydweithio i ddod â'r clasur Cymreig yn ôl i'r sgrin fawr, gyda lansiad yng Ngŵyl Ffilm Cwm Llynfi yn Neuadd y Dref Maesteg yn ystod mis Mawrth.

Cafodd y ffilm wreiddiol 35mm ei hail sganio i ansawdd 2K gan R3store Studios, ac yna'i hadfer yn ddigidol gan Gorilla Post Production a'i pharatoi ar gyfer dangosiadau yn y sinema. Gyda chefnogaeth gan Matchbox Cine, bydd isdeitlau disgrifiadol yn Saesneg a Chymraeg yn cael eu hychwanegu am y tro cyntaf hefyd, gan wneud y ffilm yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang.

**Esbonia Nia Edwards-Behi, Catalogydd Clyweledol Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru:**

*"Fe ystyrion ni sawl ffilm o'r archif ar gyfer y prosiect hwn. Fe ddewiswyd* Oed yr Addewid *gan ei fod yn ffilm apelgar sy'n parhau'n berthnasol – o ran ei themâu a'i stori – hyd heddiw. Mae'n enghraifft wych o ymateb artistig i wleidyddiaeth y dydd, ac mae hi'n werthfawr cael ail ymweld â'r ymateb hwnnw. Rydyn ni mor lwcus cael archif sy'n llawn gweithiau o'r fath, ac rwy'n mawr obeithio y cawn ragor o adnoddau i sicrhau mynediad atynt"*

***Ychwanega Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru:***

*"Rydyn ni'n cydweithio'n aml gyda sinemâu a gwyliau yng Nghymru, er mwyn cynyddu mynediad i ffilmiau o gasgliad eang yr archif, ac fel rhan o'n prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru, sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Mae'r straeon hyn yn hanfodol i ddiwylliant Cymreig ar y sgrin, maent yn cynnig mewnwelediad i'n hanes a'n cymunedau, rhywbeth y gellir dadlau y mae angen yn gynyddol, pan ystyriwn ffilmiau am Gymru gyfoes. Yn anffodus, mae sawl rhwystr sy'n atal y ffilmiau hyn rhag cael eu gweld yn rheolaidd, er gwaetha awydd y gynulleidfa amdanynt. Gall hyn fod oherwydd bod yr hawlfraint wedi darfod, neu ddiffyg adnoddau i ddosbarthu'r ffilmiau'n effeithiol, neu'r cyllid i ddigido'r ffilmiau a chadw eu hansawdd. Dyma pam fod y prosiect hwn mor bwysig i ni. Mae'r gost yn uchel, felly fel sector mae gofyn i ni sicrhau bod mynediad i'r ffilmiau hyn a bod cynulleidfaoedd yn cael cyfle i'w mwynhau am flynyddoedd i ddod."*

Mae'r ffilm ar gael i sinemâu ei harchebu ar gyfer dangosiadau o ddiwedd fis Mawrth ymlaen, gyda dyddiadau dangosiadau ledled Cymru i'w cadarnhau.

Cefnogir y prosiect hwn gan Ganolfan Ffilm Cymru, sy'n rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (RhCFf), sy'n bosib diolch i gyllid y Loteri Genedlaethol, sy'n sicrhau bod yr ystod fwyaf eang o ffilmiau ar gael i bawb ledled y DU. Mae cronfeydd yng Nghymru'n cael eu gweinyddu gan GFfC drwy Chapter, fel Sefydliad Arweiniol y Ganolfan Ffilm.

Caiff dros £30M ei godi bob wythnos ar gyfer achosion da ar draws y DU gan y Loteri Genedlaethol.

**- DIWEDD -**

I gael mynediad at ddelweddau, copïwch a gludiwch y ddolen ganlynol i'ch porwr: https://we.tl/t-RReVAV5xU9

Mae darn golygyddol sy'n ymateb i themâu'r ffilm - gwleidyddiaeth, gofal cymdeithasol, heneiddio a theulu, mewn cysylltiad â diwylliant Cymreig, hefyd ar gael gan Diffwys Criafol

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:**
Nia Edwards-Behi, Catalogydd Clyweledol Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar nia.edwards-behi@llyfrgell.cymru
Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

**Nodiadau i Olygyddion:**

## Dangosiadau Sydd Wedi'u Cadarnhau

**Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**
29 a 30 Ebrill 2025

**[Theatr Gwaun](#)**
11 Mai 2025

**[Galeri Caernarfon](#)**
13 – 14 Mai 2025 – Dyddiad pendant i'w gadarnhau, yn ystod [Wythnos y Cynnig Cymraeg](#)

***Rhagor o ddangosiadau i'w cadarnhau.***

**Ynglŷn ag Oed Yr Addewid**
**Cyfarwyddwr ac awdur:** Emlyn Williams
**Cynhyrchydd:** Alun Ffred Jones
**Golygydd:** Willy Oswald
**DoP:** Jimmy Dibbling
**Sain:** Tim Walker
**Cast:** Stewart Jones, Gwenno Elis Hodgkins, Arwel Gruffydd, Gwyn Vaughan, Morfudd Hughes, John Ogwen, Marged Esli
**Hyd y ffilm:** 89 munud
**Iaith:** Cymraeg
**Tystysgrif:** 15
**Crynodeb:** Mae hi'n fis Mawrth 1997 ac, yn dilyn 18 mlynedd dan reolaeth y Torïaid, mae Prydain ar drobwynt gwleidyddol. Mae'r weddw William Davies, chwarelwr sydd wedi ymddeol, yn cyrraedd trobwynt hefyd. Yn sosialydd ar hyd ei oes, mae'n teimlo'n ddig ac yn chwerw tuag at lywodraeth sydd wedi anghofio amdano yn ei henaint.

Ar ôl prynu ei dŷ cyngor yn yr 80au llewyrchus, dan berswâd ei blant, mae e'n sylwi bod y llywodraeth, a gymerodd fanteisiodd yn fawr o dai ddegawd yn gynharach, bellach yn disgwyl iddo werthu ei gartref er mwyn talu am ei ofal, petai e'n mynd i gartref preswyl.

Wrth i William Davies gerdded o'i dŷ un bore, mae e'n rhoi cynllun abswrd a phenboeth ar waith. Cynllun a fydd yn dwyn mantais oddi ar y system – neu dyna mae e'n ei gredu. Ond mae pethau'n mynd o chwith wrth i'r hen ddyn sylweddoli ei fod wedi gwneud camgymeriad mawr. Wrth i'r etholiad cyffredinol agosáu, mae William Davies a'i deulu yn dysgu ambell i wirionedd – am ei gilydd ac am eu teimladau go iawn tuag at eu cartref.

Dyma ffilm a leolir yng ngogledd orllewin Cymru, sy'n mynd i'r afael â thema'r cartref, ac yn benodol, sut mae aelodau gwahanol un teulu'n gweld y cartref.

**Am Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Mae'r Archif Sgrin a Sain yn cadw, yn hyrwyddo ac yn dathlu treftadaeth sain a delweddau symudol Cymru. Mae'r archif yn gartref i gasgliad cynhwysfawr a heb ei ail o ffilmiau, rhaglenni teledu, fideos, recordiadau sain a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru a'r Cymry. Mae'r casgliad yn amlhaenog, ac yn cwmpasu pob agwedd o ddiwylliant a bywyd Cymru a'i phobl, fel y croniclir gan gyfryngau clyweledol mewn sain, fideo, ffilm a'r fformatau digidol diweddaraf.

[Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#) / [Gwefan Archif Sgrin a Sain](#)

**Am Ganolfan Ffilm Cymru**
Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros [300 o arddangoswyr](#) ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a

rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 347 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 589,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter. Rydyn ni hefyd yn arwain Gwnaethpwyd yng Nghymru, prosiect sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.

Ganolfan Ffilm Cymru: Gwefan, X (Twitter gant), Facebook

Gwnaethpwyd yng Nghymru: Instagram, TikTok, Facebook, podlediad Made in Wales, YouTube, Letterboxd.

**Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI**
Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi ysgrifenwyr, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Am BFI**
Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Jay Hunt.

Gwefan, Facebook, X (Twitter gant)